# PWYLLGOR SAFONAU

Dydd Llun, 18 Tachwedd 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd M. Dodd (Cadeirydd)

**Aelodau Annibynnol:**
D. Evans, J. James ac A. Williams

**Aelod Cymunedol:**
Y Cynghorydd Tref P. Rogers

**Y Cynghorwyr:**
S.J.G. Gilasbey, R. James and G.B. Thomas

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. - 2.00 yp - 2.35 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Mr Andre Morgan (Cadeirydd).

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 3. LOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFODYDD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR:

### 3.1. 13EG MEDI, 2019

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Medi 2019 i nodi eu bod yn gywir.**

### 3.2. 26AIN MEDI, 2019

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Medi 2019, gan eu bod yn gywir, yn amodol ar ddileu teitl Cynghorydd o enw M. Dodd (Cadeirydd).**

## 4. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD MICHAEL THEODOULOU

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Michael Theodoulou o Gyngor Tref Pen-bre a Phorth Tywyn, am ollyngiad o dan ddarpariaethau'r Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) i siarad yn unig am ei waith gyda CBSA Ltd a phartneriaeth bosibl rhwng y cyngor a'r cwmni hwn i geisio am gyllid grant gan y Gronfa Newid yn yr Hinsawdd.

Dywedwyd bod y cais am ollyngiad wedi'i gyflwyno oherwydd bod gan y Cynghorydd Theodoulou fuddiant personol yn rhinwedd paragraff 10(2)(a) (i) o'r Côd Ymddygiad gan fod y mater yn ymwneud â busnes a gynhelir gan y Cynghorydd, neu'n debygol o effeithio ar y busnes hwnnw.

Roedd buddiant y Cynghorydd Theodoulou hefyd yn rhagfarnol, gan y byddai aelod o'r cyhoedd, o wybod y ffeithiau perthnasol, yn ystyried yn rhesymol fod y buddiant hwn mor sylweddol fel ei fod yn debygol o amharu ar farn y Cynghorydd ynghylch budd y cyhoedd.

Gan hynny, roedd y Cynghorydd Theodoulou wedi gofyn am ollyngiad o dan Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2011.

Dywedodd y Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith wrth y Pwyllgor y dylai, wrth ystyried y cais, nodi mai paragraffau 2 (d) a 2 (f) oedd y rhesymau mwyaf priodol pe byddai'r Pwyllgor am gymeradwyo'r cais i siarad yn unig.

Yn dilyn trafodaeth fanwl

**PENDERFYNWYD gwrthod y cais a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Michael Theodoulou am ollyngiad i siarad yng nghyfarfodydd Cyngor Tref Pen-bre a Phorth Tywyn o ran materion mewn perthynas â phartneriaeth bosibl rhwng CBSA Ltd a'r Cyngor.**

## 5. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG, BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Nid oedd dim materion brys i'w trafod.

________________________ ________________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**